

# Gwybodaeth am ein cynllun hawl dioddefwr i adolygiad

Cyhoeddwyd Mawrth 2021



## Cynnwys

Beth yw Hawl Dioddefwr i Adolygiad? .....	3
Pwy all ofyn am adolygiad? .....	3
Pryd y gallaf ofyn am adolygiad? .....	3
Sut gallaf wneud cais am adolygiad? .....	3
Beth sy'n digwydd nesaf? .....	4
Beth sy'n digwydd ar ôl yr adolygiad? .....	4
Gwybodaeth ac adborth .....	5
Cysylltiadau defnyddiol .....	5
Help gyda materion cyfreithiol .....	5
Sefydliadau cymorth .....	6
Cysylltwch â ni .....	8

## Beth yw Hawl Dioddefwr i Adolygiad?

Lansiwyd cynllun Hawl Dioddefwr i Adolygiad yr IOPC (VRR) ar 1 Rhagfyr 2020. Mae'n gadael i ddiodefwyr ofyn am adolygiad oes ydym wedi gwneud penderfyniad cychwynnol i beidio ag atgyfeirio adroddiad ymchwiliad at Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS). Mae'r mathau o benderfyniadau y gellir eu hadolygu dan y cynllun yn gyfyngedig.

Crëwyd y cynllun VRR fel ymateb i adborth gan ddiodefwyr. Mae'n sicrhau bod ein sefydliad yn gweithredu'n unol â chynlluniau tebyg a weithredir gan y CPS a lluoedd heddlu.

Mae'r daflen hon yn esbonio pwy all ofyn am adolygiad, sut i ofyn am adolygiad a beth sy'n digwydd wedyn.

## Pwy all ofyn am adolygiad?

Ar ddiwedd ein ymchwiliad, byddwn yn dweud wrthyf os yw'r cynllun VRR yn berthnasol i chi. Gallwch benderfynu wedyn a ydych am ofyn am adolygiad. Mae ein [Polisi VRR](#) yn cynnwys manylion llawn am yr adegau pan fydd y cynllun yn berthnasol.

Dan rai amgylchiadau, gall rhywun wneud cais am adolygiad ar eich rhan. Efallai y bydd arnom angen eich caniatâd ysgrifenedig ar gyfer hyn.

## Pryd y gallaf ofyn am adolygiad?

Mae'r cynllun VRR yn berthnasol i ymchwiliadau annibynnol, a reolir ac a gyfarwyddir. Ar ddiwedd ymchwiliad, rydym yn penderfynu a ddylid atgyfeirio'r achos at y CPS. Bydd y CPS wedyn yn edrych ar y dystiolaeth ac yn penderfynu a ddylai unrhyw un gael ei gyhuddo o drosedd.

Pan fyddwn yn penderfynu peidio ag atgyfeirio at y CPS, mewn rhai sefyllfaoedd, gall y penderfyniad hwn gael ei adolygu dan y cynllun VRR.

Mae rhai amgylchiadau pan na fydd y cynllun VRR yn berthnasol ac nid oes gennych hawl i adolygiad. Nodir yr amgylchiadau hyn yn ein [Polisi VRR](#).

Os byddwn yn atgyfeirio at y CPS a bod y CPS wedyn yn penderfynu peidio â chyhuddo unrhyw un, yna bydd cynllun VRR y CPS yn berthnasol yn hytrach na'n cynllun ni. Gallwch [ddarllen rhagor am gynllun y CPS ar eu gwefan](#).

## Sut gallaf wneud cais am adolygiad?

Gallwch ofyn am adolygiad yn ysgrifenedig, trwy lythyr neu e-bost. Os bydd arnoch angen cefnogaeth ychwanegol, neu os na fyddwch yn gallu cyflwyno cais yn ysgrifenedig, cysylltwch â ni dros y ffôn a byddwn yn eich helpu.

Mae cyfyngiad amser o 28 diwrnod ar gyfer gofyn am adolygiad. Mae'r cyfyngiad 28 diwrnod yn cychwyn o ddyddiad y llythyr y byddwn yn ei anfon yn dweud wrthyfch am eich hawl i adolygiad.

Nid oes raid i chi esbonio pam eich bod yn gofyn am adolygiad. Ond, gallwch ddweud eich rhesymau wrthym, os dymunwch. Rhaid i chi wneud hyn yn yr amser a ganiateir er mwyn i ni ystyried y wybodaeth hon. Os byddwch yn gofyn am adolygiad ac eisiau rhoi eich rhesymau yn nes ymlaen, esboniwch hyn pan fyddwch yn gwneud eich cais.

Mewn rhai achosion, gallwn ofyn i chi wneud eich cais am adolygiad yn gyflymach. Mae hyn yn wir am fod cyfyngiadau amser wrth gyflwyno cyhuddiad am droseddau penodol.

Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddwn yn ystyried cais am adolygiad ar ôl y cyfyngiad 28 diwrnod. Byddwn yn gwrthod unrhyw geisiadau am adolygiad a wneir fwy na thri mis ar ôl dyddiad ein llythyr yn eich hysbysu am eich hawl i adolygiad.

Os na fyddwn yn derbyn cais am VRR cyn pen tri mis, byddwn yn cadarnhau ein penderfyniad dros dro ac yn rhoi gwybod i chi.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Mae'r holl geisiadau yn cael eu hadolygu gan rywun nad oedd yn ymwneud yn uniongyrchol â'r ymchwiliad ac nad oes ganddo wrthdaro buddiannau â'r ymchwiliad. Bydd yr un radd neu'n uwch na'r unigolyn a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol a bydd yn seiliedig mewn swyddfa wahanol pan fydd hynny'n bosibl.

Bydd ein hadolygydd yn ystyried yr achos o'r newydd. Bydd yn llunio barn ar:

- a yw ein hadroddiad ymchwiliad yn dynodi y gall trosedd fod wedi cael ei chyflawni gan yr unigolyn yr ymchwiliwyd i'w ymddygiad
- a ddylai'r mater gael ei atgyfeirio at y CPS

Ein nod yw cwblhau adolygiadau cyn pen 28 diwrnod calendr o ddyddiad eich cais, neu ynghynt os bydd arnom angen ystyried cyfyngiadau amser sy'n effeithio ar gyhuddo. Os bydd unrhyw oedi wrth gwblhau eich adolygiad, byddwn yn rhoi gwybod i chi.

## Beth sy'n digwydd ar ôl yr adolygiad?

Mae dau ganlyniad posibl i adolygiad:

1. Os nad oes unrhyw awgrym o drosedd, neu os oes rhesymau dros beidio ag atgyfeirio'r mater at y CPS, bydd y penderfyniad dros dro i beidio ag atgyfeirio at y CPS yn cael ei gadarnhau.
2. Pan fydd awgrym y gall trosedd fod wedi cael ei chyflawni, byddwn yn ystyried atgyfeirio at y CPS.

Byddwn yn esbonio ein penderfyniadau i chi yn ysgrifenedig, neu trwy gyfrwng arall os bydd arnoch angen cefnogaeth ychwanegol.

Nid oes hawl i apelio nac adolygu'r penderfyniad VRR. Yr unig ffordd i herio canlyniad y VRR yw ceisio adolygiad barnwrol trwy'r llysoedd. Os ydych yn ystyried hyn, dylech geisio cyngor cyfreithiol.

## Gwybodaeth ac adborth

Os hoffech chi roi adborth neu os na fyddwch yn hapus ar y gwasanaeth rydych wedi ei dderbyn gennym ni, gallwch gysylltu â'n Tîm Cwynion ac Adborth ar 0300 020 0096.

Gallwch hefyd ymweld â'n gwefan am ragor o wybodaeth;

[www.policeconduct.gov.uk/complaints-reviews-and-appeals/our-service-complaints-and-compliments](http://www.policeconduct.gov.uk/complaints-reviews-and-appeals/our-service-complaints-and-compliments)

## Cysylltiadau defnyddiol

Mae nifer o sefydliadau a all fedru rhoi cyngor a chefnogaeth i chi.

Help gyda materion cyfreithiol

### Cyngor ar Bopeth

Cymorth gyda phroblemau cyfreithiol.

034 4411 1444

I weld eich swyddfa leol, ewch i:

[www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)

### INQUEST

Elusen sy'n gweithio gyda theuluoedd mewn profedigaeth yn dilyn marwolaethau yn y ddalfa yng Nghymru a Lloegr i roi cyngor a chefnogaeth cyfreithiol annibynnol, am ddim a chyfrinachol.

020 7263 1111

[www.inquest.org.uk](http://www.inquest.org.uk)

### Cyngor Cyfreithiol Sifil

Cyngor cyfreithiol am ddim os ydych yn gymwys i gael cymorth cyfreithiol. Mae eu gwefan yn cynnig offeryn asesu cymhwyster i gymorth cyfreithiol.

034 5345 4345

[Cyngor Cyfreithiol Sifil \(CLA\) - GOV.UK \(www.gov.uk\)](http://www.gov.uk)

## **Cymdeithas y Gyfraith**

Gwybodaeth am gyfreithwyr lleol.

020 7320 5650

[www.solicitors.lawsociety.org.uk](http://www.solicitors.lawsociety.org.uk)

Sefydliadau cymorth

## **Cruse Bereavement Care**

Help a chefnogaeth i bobl sy'n delio â phrofedigaeth.

080 8808 1677

[helpline@cruse.org.uk](mailto:helpline@cruse.org.uk)

[www.cruse.org.uk](http://www.cruse.org.uk)

## **Y Samariaid**

Cefnogaeth emosiynol gyfrinachol.

116 123 (ar gael 24 awr)

[jo@samaritans.org](mailto:jo@samaritans.org)

[www.samaritans.org](http://www.samaritans.org)

## **Road Peace**

Cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth neu anaf difrifol trwy ddamwain ffordd.

084 5450 0355

[info@roadpeace.org](mailto:info@roadpeace.org)

[www.roadpeace.org](http://www.roadpeace.org)

## **Brake**

Elusen diogelwch ar y ffordd sy'n cynnig cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth neu eu hanafu yn ddifrifol trwy ddamweiniau ar y ffordd a'u gofalwyr.

080 8800 0401

[help@brake.org.uk](mailto:help@brake.org.uk)

[www.brake.org.uk](http://www.brake.org.uk)

## **Survivors of Bereavement by Suicide**

Cefnogaeth i bobl sydd wedi cael profedigaeth trwy hunanladdiad.

030 0111 5065

[email.support@uksobs.org](mailto:email.support@uksobs.org)

[Survivors of Bereavement by Suicide – Overcoming the isolation of people bereaved by suicide \(uksobs.org\)](http://uksobs.org)

### **Cymorth i Ddiodefwr**

Elusen genedlaethol yn helpu pobl y mae troseddau wedi effeithio arnynt.

080 8168 9111

[www.victimsupport.org.uk](http://www.victimsupport.org.uk)

### **Muslim Community Helpline**

Cymorth, atgyfeiriadau cwnsela a help ymarferol i aelodau'r gymuned Fwslimaidd.

020 8904 8193 neu 020 9908 6715

[ess4m@btinternet.com](mailto:ess4m@btinternet.com)

[www.muslimcommunityhelpline.org.uk](http://www.muslimcommunityhelpline.org.uk)

### **Llinell Gymorth Switchboard LGBT+**

Cymorth i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol a'u teuluoedd a'u ffrindiau.

030 0330 0630 (10am hyd 10pm bob dydd)

[chris@switchboard.lgbt](mailto:chris@switchboard.lgbt)

[www.switchboard.lgbt](http://www.switchboard.lgbt)

### **Gwasanaeth Cwnsela Jewish Bereavement**

Cyngor profedigaeth gyfrinachol i'r gymuned Iddewig.

020 8951 3881

[enquiries@jbcs.org.uk](mailto:enquiries@jbcs.org.uk)

[www.jbcs.org.uk](http://www.jbcs.org.uk)

### **Cod y Dioddefwr**

Mae'r Cod Ymarfer llawn ar gyfer Dioddefwr Troseddau, a'r wybodaeth gyhoeddus i'w gefnogi, ar gael ar-lein yn: [www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime](http://www.gov.uk/government/publications/the-code-of-practice-for-victims-of-crime)

### **Iawndal am niwed troseddol**

Gallwch fod yn gymwys i ymgeisio am iawndal os oeddech yn ddiodefwr trosedd dreisgar.

[www.gov.uk/claim-compensation-criminal-injury](http://www.gov.uk/claim-compensation-criminal-injury)

## Cysylltwch â ni

Ffôn: 030 0020 0096

E-bost: [enquiries@policeconduct.gov.uk](mailto:enquiries@policeconduct.gov.uk)

Gwefan: [www.policeconduct.gov.uk](http://www.policeconduct.gov.uk)

Twitter: @policeconduct @IOPC\_Help

We welcome calls in Welsh. This document is also available in English.

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg. Mae'r ddogfen hon ar gael yn y Saesneg hefyd.

---

© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (2021)



Trwyddedir y cyhoeddiad hwn dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 oni bai lle nodir yn wahanol.